CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 16 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd  (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lewis, Mackie, Robson, Shimmin, John, Birch, Simmonds, Andrews, Colbran, Jones,<br>Y Cynghorydd Wendy Lewis a/ac Winstanley |

1 : ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2023/24.

Etholwyd y Cynghorydd Norma Mackie yn Gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/24.

Etholwyd y Cynghorydd Carol Andrews yn Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/24.

2 : NODI'R AELODAETH CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2023/24.

Nodwyd.

3 : NODI'R CYDGYTUNDEB/CYLCH GORCHWYL I GYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2023/24

Nodwyd.

4 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bob Harris, Barry Stephens a Keith Jones.

5 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

6 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

7 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AR GYFER Y CYFNOD 1 MAWRTH I 31 MAI 2023

Rhoddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2023 – 31 Mai 2023 i gyd wedi'u categoreiddio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

Crynhodd yr Archifydd ei bod wedi bod yn chwarter prysur arall i'r gwasanaeth archif.   Roedd yn arbennig o braf cael prosiect y Canllaw Ymchwil ar y gweill, a

chael caffael yr ystorfa cadwraeth ddigidol wedi'i gwblhau.  Bydd y ddau brosiect hyn yn helpu'r gwasanaeth i wneud cynnydd sylweddol mewn gwahanol feysydd.

Mae nifer o brosiectau gwahanol eraill ar y gweill o fewn y gwasanaeth a gyda phartneriaid, ac roedd yn braf gallu parhau i adrodd ar y gwaith hwnnw a'r ffaith bod yr Archifau yn parhau i fod yn bartner i amrywiaeth o sefydliadau.

Mae'r gwahanol agweddau ar reoli'r adeilad yn parhau i fod yn heriol wrth i wahanol waith barhau i gael ei gydbwyso yn ôl y cronfeydd sydd ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Archifydd am ei gwaith ar yr adroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan Aelodau'r Cydbwyllgor.

Roedd yr aelodau yn falch o weld arddangosfa Gwaed Morgannwg mewn llyfrgelloedd a hybiau lleol.

Cynhaliwyd trafodaeth o gwmpas Mis Hanes Pobl Dduon, 75$^{ain}$ pen-blwydd Windrush ac ymgyrchoedd Gwrth-Hiliaeth Llywodraeth Cymru.  Nodwyd bod Sain Ffagan yn casglu gwybodaeth yn ymwneud â 75$^{ain}$ pen-blwydd Windrush ond nid oes ganddynt unrhyw ffotograffau neu ddogfennau.  Gofynnodd yr aelodau a oedd yr Archifau wedi bod mewn cysylltiad neu a allai eu helpu.  Nododd Rhian Diggins bod Cyngor Hil Cymru yn bartner prosiect, ac mae hyn yn rhywbeth y gellid edrych arno. Awgrymwyd y gallai casgliad Celfyddydau a Threftadaeth Butetown fod â rhywfaint o wybodaeth berthnasol.

Nododd yr Aelodau mai'r flwyddyn nesaf yw 40$^{fed}$ pen-blwydd Streic y Glowyr a gofynnwyd a oedd unrhyw beth wedi'i gynllunio ar gyfer hyn.  Dywedodd yr Archifydd nad oedd unrhyw beth wedi'i gynllunio eto, ond byddant yn edrych i mewn i hyn, bydd yr Archifau bob amser yn ceisio gwneud rhywbeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd hanesyddol y streiciau ar draws y DU gyfan ac y gallai fod cyfle i weithio gyda gwasanaethau Archifau eraill, megis yn Swydd Efrog, a gallai hyn hefyd gynnig cyfle am gyllid.

PENDERFYNWYD: nodi Adroddiad Archifydd Morgannwg ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth i 31 Mai 2023

## 8 : ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHIFAU MORGANNWG 2022

Derbyniodd yr Aelodau amlinelliad cynhwysfawr o Adroddiad Blynyddol 2022.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai fersiwn Gymraeg yn cael ei chynhyrchu unwaith y cytunir ar y testun Saesneg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Archifydd a'r holl staff am y gwaith gwych y maent wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

PENDERFYNWYD: nodi Adroddiad Blynyddol Archifau Morgannwg 2022.

## 9 : CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG - ADRODDIAD ALLDRO 2022/23

Cafodd yr Aelodau amlinelliad cynhwysfawr o’r adroddiad a’i holl brif benawdau ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ar yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith ar yr adroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan Aelodau'r Cydbwyllgor.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr arian a oedd yn mynd i mewn i'r Cronfeydd Cyffredinol a gofynnwyd a ellid fod wedi gwario hyn ar unrhyw beth arall, megis gwrthbwyso cynilion ac ati, gan fod yr Aelodau’n pryderu y gallai fod sefyllfa yn y dyfodol unwaith eto, pan fo cronfeydd wrth gefn enfawr. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod swm o £65 mil o gronfeydd wrth gefn wedi'i gyllidebu'r flwyddyn nesaf, felly roedd Swyddogion o'r farn ei bod yn well cael y cronfeydd wrth gefn mewn sefyllfa iach nawr. Mae'r hinsawdd bresennol yn dal i fod yn gyfnewidiol o ran costau cyfleustodau ac ati, felly bydd cael y gronfa wrth gefn hon nawr yn golygu ei bod yn llai tebygol y gofynnir i Awdurdodau Lleol am gyfraniadau ychwanegol. Ychwanegodd yr Archifydd ei bod hefyd yn bwysig cofio y gallai fod costau annisgwyl gyda'r adeilad, fel ail-lenwi'r silindrau nwy, felly roedd yn well cael cronfa wrth gefn iach rhag ofn.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2022/23.

2. Cytuno bod Datganiad Blynyddol ddrafft Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 yn cael ei nodi a'i lofnodi.

## 10 : DYDDIADAU CYFARFODYDD I DDOD

Dyddiadau arfaethedig y cyfarfodydd nesaf.

22 Medi 2023 – 2pm
15 Rhagfyr 2023 – 2pm
22 Mawrth 2024 – 2pm
14 Mehefin 2024 – 2pm
20 Medi 2024 – 2pm
13 Rhagfyr 2024 – 2pm

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch cyfarfodydd ar-lein a'r Aelodau'n cael ymweliad/taith o amgylch yr Archifau. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn parhau ar-lein, ond byddai cyfle i gael cyfarfod wyneb yn wyneb y gellid ei ymgorffori gydag ymweliad/taith o amgylch adeilad yr Archifau, o bosibl ym mis Medi neu fis Rhagfyr eleni.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm